## Taflen Ganllaw 2 - Strwythurau Busnes

Mae dewis strwythur busnes cywir yn bwysig. Bydd angen i chi ystyried pa mor fawr ydych chi'n dymuno tyfu eich busnes. Efallai y byddwch chi'n cychwyn fel unig fasnachwr ac felly'n hunangyflogedig, ond nid yw hyn yn eich rhwystro rhag tyfu eich busnes a newid strwythur eich busnes ryw bryd yn y dyfodol. Mae'r daflen ganllaw hon yn ystyried 3 math o strwythur busnes:

1. Unig Fasnachwr / Hunangyflogedig
2. Partneriaeth
3. Cwmni Cyfyngedig
4. Menter Gymdeithasol
5. Cwmni Buddiannau Cymunedol

## Unig Fasnachwr / Hunangyflogedig

Fel unig fasnachwr, byddwch yn cael eich cyfrif yn hunangyflogedig. Mae hyn yn golygu eich bod chi'n gyfrifol am ofalu am eich holl weithgarwch busnes eich hun. Mae hyn yn cynnwys gwaith rydych chi'n ei wneud ynghlwm â'ch busnes o ddydd i ddydd a sicrhau eich bod yn bodloni holl ofynion cyfreithiol bod yn hunangyflogedig. Dyma bethau y bydd angen i chi eu gwneud a bod yn ymwybodol ohonynt:

1. Cofrestru â'r Adran Cyllid a Thollau (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi) ar gyfer hunanasesu cyn gynted ag y byddwch chi'n dechrau masnachu.
2. Bydd angen i chi gyflwyno eich ffurflen dreth flynyddol (hunanasesiad) ar-lein. Gallwch wneud hyn eich hun neu benodi asiant e.e. rhywun i gadw cyfrifon neu gyfrifydd, i wneud hyn ar eich rhan.
3. Bydd angen i chi dalu treth incwm a Chyfraniadau YG (Yswiriant Gwladol) yn dilyn trothwyon ar gyfer elw.
4. Rhoi arian i'r ochr (cyllidebu ar gyfer y bil treth ar ddiwedd y flwyddyn).
5. Gallwch gyflogi pobl eraill. Os ydych chi'n cyflogi pobl, bydd angen i chi gofrestru â'r Adran Cyllid a Thollau fel cyflogwr a gweithredu system Talu Wrth Ennill (PAYE).
6. Chi eich hun fydd yn gyfrifol am unrhyw ddyledion neu golledion sy'n gysylltiedig â gweithgarwch eich busnes.
7. Gallwch gadw'r elw ar ôl talu eich holl dreth.

## Rhagor o wybodaeth

Am ganllawiau llawn ac i gofrestru:
– Hunangyflogaeth Cliciwch Yma

## Partneriaeth

Gall Partneriaeth fod yn ddau o bobl neu fwy'n dod ynghyd i redeg busnes. Mae pob partner yn rhannu cyfrifoldeb am weithgarwch y busnes a byddant yn talu treth i'r Adran Cyllid a Thollau am eu cyfran nhw o'r incwm mae'r busnes yn ei greu. Pethau y bydd angen i chi eu gwneud a bod yn ymwybodol ohonynt:

1. Dewis enw i'r busnes.
2. Dewis 'partner enwebedig'. Y partner enwebedig fydd yn gyfrifol am reoli cofnodion y bartneriaeth ac anfon ffurflenni treth at yr Adran Cyllid a Thollau.
3. Cofrestru â'r Adran Cyllid a Thollau.
4. Bydd dogfen cytundeb partneriaeth yn nodi'r rheolau y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer y bartneriaeth e.e. sut mae elw o waith y busnes yn cael ei rannu rhwng partneriaid, mae'n nodi atebolrwydd a beth sy'n digwydd os bydd partner eisiau gadael y bartneriaeth, neu os oes partner newydd yn dod iddi.
5. Mewn partneriaeth arferol, mae **pob** partner yn llwyr gyfrifol am bob dyled sydd i'w thalu gan y busnes.
6. Mae pob partner hefyd i anfon eu **ffurflenni treth eu hunain fel unigolion**.

### Rhagor o wybodaeth

| | |
|---|---|
| – Partneriaeth | Cliciwch Yma |
| – Ffurflenni treth ar gyfer partneriaid unigol | Cliciwch Yma |

## Cwmni Cyfyngedig

Yng nghyd-destun meicro-fentrau, mae Cwmni Cyfyngedig yn gwmni sydd wedi'i gyfyngu gan gyfranddaliadau. Mae hyn yn golygu bod y cwmni:

1. Ar wahân yn gyfreithiol i'r bobl sy'n ei redeg.
2. Mae atebolrwydd y budd-ddeiliaid i gredydwyr y cwmni wedi'i gyfyngu i unrhyw arian mae partneriaid wedi'i fuddsoddi.
3. Â chyfranddaliadau a chyfranddalwyr.
4. Mae budd-ddeiliaid fel arfer yn fuddsoddwyr ond heb, o reidrwydd, fod yn gyfrifol am redeg y busnes o ddydd i ddydd.
5. Cyfarwyddwr y cwmni sy'n gyfrifol am weithrediad cyfreithiol y busnes.
6. Mae pob unigolyn mae'r cwmni'n ei gyflogi'n talu trethi ar sail Talu Wrth Ennill.
7. Os yw'r cwmni'n rhoi'r gorau i fasnachu ac yn cael ei ddiddymu, gall yr arian gwreiddiol a gafodd ei fuddsoddi yn y cwmni gael ei golli.
8. Mae ei arian ar wahân i arian unrhyw unigolyn.
9. Gall gadw unrhyw elw mae'n ei wneud ar ôl talu treth gorfforaeth.

### Rhagor o wybodaeth

Am ganllawiau llawn ac i gofrestru:
- Cwmni Cyfyngedig Cliciwch Yma

## Menter Gymdeithasol

Nid yw menter gymdeithasol yn fodel cyfreithiol. Mae'n ffordd o wneud gweithgarwch busnes sy'n cael effaith gymdeithasol neu amgylcheddol gryf yn ogystal â chyflawni amcanion masnachol.

1. Mae mentrau cymdeithasol yn fusnesau traddodiadol. Maent yn ceisio gwneud elw.
2. Yr hyn maen nhw ei wneud â'u helw sy'n eu gosod ar wahân i fusnesau arferol, a'u hymrwymiad i fod o fudd i gymdeithas.
3. Mae mentrau cymdeithasol yn ail-fuddsoddi neu'n rhoi eu helw i greu newid cymdeithasol cadarnhaol trwy werthu nwyddau a gwasanaethau yn y farchnad agored.
4. Maen nhw'n creu gwaith ac yn ail-fuddsoddi eu helw'n ôl yn eu busnes neu yn y gymuned leol, gan fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol, gwella cyfleon pobl mewn bywyd, darparu cyfleoedd hyfforddi a gwaith i'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad swyddi a chefnogi cymunedau a'r amgylchedd.
5. Diffiniad Llywodraeth Cymru o fenter gymdeithasol:

*Mae'r elw sydd ganddynt dros ben yn cael ei ail-fuddsoddi at y diben hwnnw yn y busnes neu'r gymuned, yn hytrach na gwneud elw i gyfranddalwyr a pherchnogion.*

*"Mae mentrau cymdeithasol yn mynd i'r afael ag ystod eang o faterion cymdeithasol ac amgylcheddol. Maen nhw'n cystadlu yn y farchnad agored fel busnesau eraill, gan ddefnyddio eu sgiliau busnes i gyflawni nodau cymdeithasol. Fel busnesau eraill, nod mentrau cymdeithasol yw cynnal eu busnes a gwneud elw. Y gwahaniaeth ydi'r hyn maen nhw'n ei wneud â'r elw."*

### Rhagor o wybodaeth

| | |
|---|---|
| Trawsnewid Cymru Trwy Fenter Gymdeithasol 2020 | Cliciwch yma |
| Social Enterprise UK | Cliciwch Yma |
| Cwmnïau Cymdeithasol Cymru | Cliciwch Yma |
| UnLtd | Cliciwch Yma |
| Canolfan Gydweithredol Cymru | Cliciwch Yma |

## Cwmni Buddiannau Cymunedol

Mae Cwmni Buddiannau Cymunedol yn fath o gwmni a gafodd ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU yn 2005 dan Ddeddf Cwmnïau 2004. Roedd yn strwythur

cyfreithiol a gafodd ei greu'n benodol ar gyfer Mentrau Cymdeithasol sy'n defnyddio elw ac asedau er lles cymdeithas yn hytrach nag er budd cyfranddalwyr preifat.

Bydd Cwmni Buddiannau Cymunedol angen:

1. 'Datganiad Buddiannau Cymunedol'. Bydd hwn yn egluro beth mae eich busnes yn bwriadu ei wneud.
2. Clo asedau. Dyma addewid cyfreithiol i ddweud na fydd asedau'r cwmni ond yn cael eu defnyddio ar gyfer amcanion cymdeithasol, a bydd yn gosod terfyn ar faint o ddifidend all ei dalu i gyfranddalwyr.
3. Cyfansoddiad. Dyma ddogfen lywodraethu'r cwmni a fydd yn cael ei chyflwyno i Swyddfa'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiannau Cymunedol wrth gofrestru'r cwmni.
4. Cymeradwyaeth gan y Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiannau Cymunedol.

## Rhagor o wybodaeth

Swyddfa'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiannau Cymunedol Cliciwch Yma

## Datblygu a Chymorth Meicro-ofal

Rob Loudon, Meicro-ofal, Swyddog Datblygu a Chynllunio
Rhif ffôn: 01352 701461
E-bost: Robert.loudon@flintshire.gov.uk
Swyddog Datblygu Meicro-ofal

Marianne Lewis, Meicro-ofal, Swyddog Cynllunio a Datblygu
Rhif ffôn: 01352 702126
E-bost: Marianne.lewis@flintshire.gov.uk
Swyddog Datblygu Meicro-ofal

## Cymorth i Fusnesau

San Leonard, Prif Weithredwr Cwmnïau Cymdeithasol Cymru
Rhif ffôn: 07799 345 940
E-bost: sanleonard@socialfirmswales.co.uk

Busnes Cymru
Rhif ffôn: 03000 603 000
Gwefan: https://busnescymru.llyw.cymru